# Y Pwyllgor Busnes

## Cofnodion BC(3)18-10

**Dyddiad:** Dydd Mawrth 15 Mehefin 2010
**Amser:** 08.30
**Lleoliad:** Ystafell Gyfarfod 4ydd Llawr, yr Uned Gorfforaethol

### Aelodau'r Cynulliad yn bresennol

Dafydd Elis-Thomas, y Llywydd (Cadeirydd)
Jane Hutt, y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb
Nick Ramsay, Rheolwr Busnes y Ceidwadwyr Cymreig
Peter Black, Rheolwr Busnes Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
Jocelyn Davies, Rheolwr Busnes Plaid Cymru

### Swyddogion yn bresennol

Adrian Crompton, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad
Marion Stapleton, Is-adran Busnes y Cynulliad a Rheoli Deddfwriaeth
Aled Eirug, Ymgynghorydd Cyfansoddiadol
Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Deddfwriaeth
Sulafa Halstead, Pennaeth Pwyllgorau'r Cynulliad
Anna Daniel, Clerc y Pwyllgor Busnes

### 1. Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau

### 2. Cofnodion y cyfarfod blaenorol

**BC(3)17-10 (Cofnodion drafft) - Dydd Mawrth 8 Mehefin 2010**

2.1 Cyflwynwyd y cofnodion i'r Pwyllgor ar eu ffurf ddrafft. Gan nad oedd unrhyw sylwadau, byddent yn cael eu cyfieithu yn barod i'w cyhoeddi.

**Cam i'w gymryd: Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Busnes**

### 3. Busnes i ddod

**Busnes yr wythnos hon - BC(3)18-10(p1)**

3.1 Rhoddodd y Gweinidog dros Fusnes wybod i'r Pwyllgor y byddai'r eitem ganlynol yn cael ei gosod yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mawrth 15 Mehefin 2010:

Y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes: Ad-drefnu Ysgolion (45 munud)

3.2 Cytunodd y Pwyllgor na fydd y Cyfnod pleidleisio dydd Mawrth na dydd Mercher yn digwydd cyn 5.00pm.

3.3 Nododd y Pwyllgor drefn busnes ar gyfer 15 a 16 Mehefin 2010.

**Amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf - BC(3)18-10(p2)**

3.4 Cytunodd y Pwyllgor Busnes i drefnu'r eitem ganlynol ar gyfer dydd Mercher 23 Mehefin 2010:

Dadl ar Gaza (45 munud)

3.5 Cyhoeddodd y Gweinidog dros Fusnes y bydd Prif Weinidog Cymru'n gwneud datganiad ar y rhaglen ddeddfwriaethol ar 13 Gorffennaf 2010.

3.6 Nododd y Pwyllgor amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf.

**Amserlen busnes y Cynulliad a busnes heblaw busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf - BC(3)18-10(p3)**

3.7 Cytunodd y Pwyllgor ar drefn busnes y Cynulliad.

3.8 Cytunodd y Pwyllgor ar drefn busnes heblaw busnes y Llywodraeth.

### 4. Deddfwriaeth

**(i) Mesur Arfaethedig Caeau Chwarae (Ymgysylltiad Cymunedau â Phenderfyniadau Gwaredu) (Cymru) - Amserlen**

**awgrymedig ar gyfer gweithdrefnau Cyfnod 2 - BC(3)18-10(p4)**

4.1 Cytunodd y Pwyllgor Busnes ar 15 Gorffennaf 2010 fel terfyn amser i Bwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1 gwblhau gweithdrefnau Cyfnod 2 o'r Mesur Arfaethedig Caeau Chwarae (Ymgysylltiad Cymunedau â Phenderfyniadau Gwaredu) (Cymru).

## 5. Busnes arall

**(i) Amseru Dyddiad Diddymu - BC(3)18-10(p5)**

5.1 Nododd y Pwyllgor Busnes bapur ar y dyddiadau sydd ar gael ar gyfer busnes cyn diddymu'r Trydydd Cynulliad.

**(ii) Llythyr gan Alun Davies ynghylch y Pwyllgor Darlledu**

5.2 Bu'r Pwyllgor Busnes yn ystyried llythyr gan Alun Davies yn gofyn am ailsefydlu'r Pwyllgor Darlledu. Cytunodd y Pwyllgor i wahodd y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant i ystyried y mater a godwyd yn y llythyr.

**(iii) Rheoli'r rhaglen ddeddfwriaethol**

5.3 Gofynnodd y Rheolwyr Busnes am bapur ar reoli deddfwriaeth rhwng nawr a diwedd y Trydydd Cynulliad.

**YSGRIFENYDDIAETH Y PWYLLGOR BUSNES**